

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2025-26

Tachwedd 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddPLI

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor y Llywydd

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddPLI@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2025-26

Tachwedd 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPLI

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
David Rees AS**
Llafur Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24	10
3. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26 ..	14
Atodiad A: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25.	28

Casgliad ac argymhellion

Casgliad 1. Yn amodol ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25 yn gyson â'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru mwn ffordd ddarvoudus, effeithlon ac effeithiol..... Tudalen 26

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod amcangyfrifon yn y dyfodol yn nodi'n glir sut y caiff cyllid ei ddyrannu i gostau busnes craidd a chostau uniongyrchol digwyddiadau. Tudalen 26

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyflwyno dadansoddiad o gostau'r gweithgareddau amrywiol sy'n ymwneud ag etholiad y Senedd 2026, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw danwariant a ragwelir yn y meysydd hyn..... Tudalen 26

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae'r amcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn debygol o gymharu â blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan gaiff etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol eu cynnal..... Tudalen 26

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, ac yn ymddangos eto gerbron y Pwyllgor yn ffurfiol a'r tu allan i'w sesiwn graffu flynyddol, a hynny i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith arfaethdig yn y cyfnod cyn etholiad 2026..... Tudalen 26

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyflwyno ei farn i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar yr heriau a achosir gan amseru cyllidebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gyflwyno'i amcangyfrifon erbyn y terfyn amserstatudol, fel bod modd ymgorffori hyn yn ei adolygiad o brotocol proses y gyllideb..... Tudalen 27

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn ymrwymo i'r canlynol:

- neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer costau digwyddiadau uniongyrchol i weithgareddau sy'n gysylltiedig ag etholiad y Senedd 2026;

- tynnu i lawr dim mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol o Gronfa Gyfunol Cymru;
- dychwelyd unrhyw danwariant i Gronfa Gyfunol Cymru; a
- rhoi sicrwydd, os bydd tanwariant mewn un maes gwaith, na fydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ailddyrannu i feysydd eraill.Tudalen 27

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod dadansoddiad pellach o'r costau yn cael ei gyflwyno, a hynny i ddangos y costau canlyniadol, os o gwbl, sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd sy'n ychwanegol at flwyddyn etholiad 'gyffredin'.
..... Tudalen 27

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo ynghylch y canlynol:

- sut mae ei waith ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru yn dod yn ei flaen; a
- sut mae'n bwriadu mesur yr effaith y mae'r ymgyrch hysbysebu y telir amdano yn ei chael ar grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru a'r etholwyr ehangach.Tudalen 27

1. Cyflwyniad

Cefndir y gwaith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn

1. Telir am waith y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Pwyllgor Llywydd y Senedd¹ (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am graffu ar faint o arian y gofynnir amdano i'r diben hwn fel y nodir yn yr amcangyfrifon ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor bob blwyddyn gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu ar gynlluniau pum mlynedd y Comisiwn sy'n ymwneud â'i waith ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru.

2. Yn ôl Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B y Senedd:

“Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno amcangyfrif o'i incwm a'i wariant y gellir ei briodoli i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, i Bwyllgor y Llywydd o dan Reol Sefydlog 18B.2 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ond erbyn 1 Hydref fan bellaf.” (20.20A)

“Rhaid i Bwyllgor y Llywydd:

(i) ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac ystyried unrhyw gyngor a roddwyd iddo ganddynt, ac;

(ii) ar ôl rhoi sylw i unrhyw adroddiadau a wnaed iddo gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau;

ystyried a gosod gerbron y Senedd, heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrif, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Comisiwn ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.”² (20.20B)

¹ Pwyllgor y Llywydd

² Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B

3. Ar adegau penodol (h.y. yn dilyn etholiad y Senedd neu ar gais Pwyllgor y Llywydd) rhaid i'r Comisiwn hefyd gyflwyno i'r Pwyllgor gynllun pum mlynedd³ sy'n nodi nodau ac amcanion y Comisiwn yn ymwneud ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn y pum mlynedd dilynol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r cynllun yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2021.⁴

4. Rhaid i'r Pwyllgor graffu ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

5. Yna, bydd yr amcangyfrif a osodir gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 20.20B yn ymddangos yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol, i'w gytuno gan Senedd⁵

Cyflwyno amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26

6. Cyflwynodd y Comisiwn ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2025-26⁶ i'r Pwyllgor ar 30 Medi 2024, ynghyd â llythyr eglurhaol.⁷

7. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 4 Tachwedd 2024 i graffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun. Roedd y cynrychiolwyr a ganlyn o'r Comisiwn yn bresennol yn y cyfarfod:

- Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens CBE (Comisiynydd Etholiadol Cymru)
- Vijay Rangarajan (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu)
- Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn yng Nghymru)
- Niki Nixon (Cyfarwyddwr Cyfathrebu y Comisiwn)

8. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan Weinidogion Cymru cyn penderfynu a yw'n fodlon â'r amcangyfrifon a'r cynlluniau. Rhannodd y Pwyllgor amcangyfrif y

³ [Y Comisiwn, Cynllun Corfforaethol i Gymru 2022/23 i 2026/27](#)

⁴ [Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2022-23 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2026-27, ac adroddiad blynyddol 2020-21](#)

⁵ Gweler [Rheol Sefydlog 20](#) am esboniad o broses cyllideb y Senedd.

⁶ [Amcangyfrif Ariannol y Comisiwn 2025-26](#)

⁷ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

Comisiwn ar gyfer 2025-26 gyda Llywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2024. Cafwyd cyngor Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar 17 Hydref 2024.⁸

Cytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid

9. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion, a elwir yn Ddatganiad o Egwyddorion⁹, y mae'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllidebol e.e. y dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru a phwysau cyllido yn y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Comisiwn yn gorff o'r fath a gofynnwyd iddo gadw at yr egwyddorion hyn wrth baratoi ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2025-26. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i fabwysiadu datganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, er mwyn ategu ei waith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn.

⁸ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol 17 Hydref 2024.

⁹ Datganiad o Egwyddorion rhwng Pwyllgor Cyllid y Senedd a chyrrff a ariennir yn uniongyrchol

2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24

10. Gosododd y Comisiwn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24 gerbron y Senedd ar 29 Gorffennaf 2024.¹⁰ Roedd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol Cymru (datganoledig) ar gyfer 2023-24¹¹, yn nodi gwaith y Comisiwn ar faterion datganoledig yng Nghymru. Roedd hefyd yn rhoi dadansoddiad o wariant yn ymwneud â gweithgareddau Cymru.

11. Yn ôl yr adroddiad, roedd y Comisiwn wedi defnyddio 96 y cant o'i adnoddau o'r £1.5 miliwn a oedd ar gael yn ystod 2023-24. Mae hyn yn cynrychioli tanwariant o £19,000. Mae'r adroddiad yn nodi bod "hyn ar gyfer staffio yn bennaf, sef £0.9m (60%); ac mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad y Senedd at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol".¹²

12. Nododd y Comisiwn fod llawer o'i waith yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhaglen o ddiwygiadau etholiadol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023-24. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddatblygu polisiau;
- Darparu tystiolaeth ysgrifenedig gynhwysfawr ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol); ac
- Ymddangos gerbron Pwyllgorau'r Senedd i roi tystiolaeth ar y tri Bil.

13. Canolbwyntiodd y Comisiwn hefyd ar ei wasanaeth cyngor a chymorth i randdeiliaid, gan gynnwys gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr, asiantau a phleidiau; a datblygodd adnoddau i ysgolion fel rhan o'i raglen ymgysylltu democrataidd yng Nghymru.

¹⁰ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24](#)

¹¹ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24. Adroddiad Blynyddol Cymru](#)

¹² [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24. Adroddiad Blynyddol Cymru](#)

14. O ran gweithgareddau corfforaethol, symudodd y Comisiwn i'w swyddfa newydd ym mis Mawrth 2024. Dywedodd:

“Mae'r lleoliad newydd yn cynnig lle i weithio fel tîm, potensial i gynyddu nifer y staff yn y dyfodol, ac yn ein galluogi i gynnal cyfarfodydd gyda grwpiau rhanddeiliaid amrywiol.”¹³

15. Ym mis Ionawr 2024, rhannodd y Comisiwn wybodaeth ychwanegol yn ymwneud â symud ei swyddfa ar gais y Pwyllgor. Cyfanswm y costau ar gyfer ei swyddfeydd blaenorol yn Nhŷ'r Cwmnïau oedd tua £24,000 ar gyfer blwyddyn olaf y brydles. Roedd y llythyr hefyd yn nodi costau arfaethedig ar gyfer y swyddfa newydd ond nid oedd yn cynnwys cyfanswm y gost.

16. Pan ofynnwyd iddo egluro sut roedd y swyddfeydd newydd yn cael eu defnyddio ac a ydynt yn cynnig gwerth am arian, dywedodd y Prif Weithredwr:

“what we're doing in each of these cases is trying to strengthen the offices outside London; it's another way of both getting brilliant people to work for us, but also to save some of our costs and to increase our reach and understanding across the UK. So, we're being very location neutral in what we're doing and in our recruitment processes, which is one of the parts of our estate strategy.”¹⁴

Cynllun Corfforaethol y Comisiwn i Gymru

17. Ym mis Hydref 2021, cyflwynodd y Comisiwn ei Gynllun Corfforaethol i Gymru 2022/23 – 2026/27 ('y Cynllun')¹⁵ i'r Pwyllgor. Mae'r cynllun yn amlinellu pum amcan strategol y Comisiwn:

- Systemau cofrestru a phleidleisio hawdd eu defnyddio;
- Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio â'r rheolau;
- Gwasanaethau etholiadol lleol cadarn;
- Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol; a

¹³ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24. Adroddiad Blynyddol Cymru

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 186

¹⁵ Cynllun Corfforaethol y Comisiwn i Gymru

- System etholiadol fodern a chynaliadwy.

18. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r dangosyddion perfformiad corfforaethol ar gyfer 2023-24, a fydd yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad yn erbyn ei amcanion strategol. Mae'n nodi y bydd y Comisiwn yn mesur pa mor dda mae'n gwireddu'r gwelliannau hyn yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion ar gyfer Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

19. Cyflwynodd y Comisiwn ei asesiad o'i berfformiad yn 2023-24 ochr yn ochr â'i Amcangyfrif ar gyfer 2025-26. Dywedodd:

*"Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol i Gymru. Mae'r ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer pob un o'r dangosyddion perfformiad yn dangos ein bod wedi bodloni pob targed a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ac eithrio dau (gwelliant ar y pedwar targed a gollwyd yn 2022/23)."*¹⁶

20. Ychwanegodd y Comisiwn:

*"Rhoesom hysbysiadau amserol o ganlyniad y ceisiadau i gofrestru gan bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn 80% o achosion, yn erbyn targed o 90%. Roedd hyn oherwydd nifer annisgwyl o uwch o geisiadau a gyflwynwyd a dim digon o staff i ymdrin â'r achosion hyn. Mae lliniariadau wedi cael eu gosod ar gyfer hyrddiadau annisgwyl o geisiadau a geir yn y dyfodol."*¹⁷

21. Nid oedd y Comisiwn ychwaith yn gallu bodloni ei ddyddiadau targed ar gyfer gweithredu'r holl argymhellion archwilio mewnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oherwydd capasiti ac argaeledd staff. Fodd bynnag, cwblhawyd yr argymhellion hyn erbyn eu dyddiad cyflwyno diwygiedig.

22. Holodd y Pwyllgor ynghylch datblygu dangosyddion perfformiad allweddol, ac ymateb y Prif Weithredwr oedd:

¹⁶ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

¹⁷ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

“we'd like to have some basic service indicators. So, we ought to be getting back responses to everything, from letters, to freedom of information requests, to responses on consultation in good time and with high quality—that's the kind of service standards part. But then, in our reporting, following each election, we look at things like trust in elections, we look at the voter experience, we look at how, for example, disabled voters are able to participate, we look at the under-represented groups. And so, some of these system indicators are really important, that we can continue to monitor, and then, with a wide variety of Governments and partners, work on to try to improve them.”¹⁸

23. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ynghylch a fyddai'r dangosyddion hyn yn cael eu hymgorffori yn yr adroddiad blynyddol yn y dyfodol, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddant.¹⁹

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 170

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 172

3. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26

Trosolwg

24. Cyfanswm yr amcangyfrif a gyflwynwyd gan y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 oedd £2.742 miliwn. Mae hyn yn gynydd o £1.178 miliwn mewn termau arian parod ac yn gyfwerth â chynnydd o 75 y cant o'i gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer 2024-25. Mae'r amcangyfrif yn Atodiad A. Mae'r Comisiwn yn esbonio'r cynnydd mewn cyllid yn ei llythyr eglurhaol i'r amcangyfrif, gan ddweud:

"Fe welwch o'r amcangyfrifon atodedig ein bod wedi cyflwyno arbedion i chi ar gyfer weithgareddau craidd y rhan fwyaf o dimau, ac eithrio pan fyddwn yn disgwyl mwy o weithgarwch yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd sydd i ddod. Rydym yn parhau â'n gwaith i gryfhau'r Comisiwn trwy fuddsoddiadau yn ein timau cyllid, caffael ac Adnoddau Dynol a'n timau cymorth eraill..."²⁰

25. Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor â Llywodraeth Cymru ar amcangyfrif y Comisiwn, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y cynnydd sylweddol mewn cyllid a dywedodd, "Gan ystyried y pwysau cyllidebol cyfredol ar Gronfa Gyfunol Cymru, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ceisio eglurhad pellach o ran y costau hyn..."²¹

26. Mae llythyr eglurhaol y Comisiwn i'r Amcangyfrif yn nodi bod £1.315 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer busnes craidd (o gymharu â £1.441 miliwn ar gyfer 2024-25, gostyngiad o 8.7 y cant mewn termau arian parod) ac £1.216 miliwn ar gyfer costau digwyddiadau uniongyrchol (o'i gymharu â £124,000 ar gyfer 2024-25, cynnydd o 883.5 y cant mewn termau arian parod). Gofynnir hefyd am £211,000 ar gyfer y Cynllun Corfforaethol yn 2025-26. Ni ofynnwyd am gyllid ar gyfer hyn yn 2024-25.

27. Nododd y Pwyllgor nad yw Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2025-26 yn dangos sut mae'r elfennau yn cyfateb i'r categorïau 'Craidd' a 'Digwyddiadau', ac felly mae'n anodd deall sut y cânt eu dyrannu. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet

²⁰ Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn

²¹ Cyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet Lywodraeth Leol a Thai ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn

dros Lywodraeth Leol a Thai sylw at hyn hefyd yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar yr Amcangyfrif, gan ddweud:

“Yn ogystal, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno sicrhau ei hun o ran yr anghysondebau bychain rhwng y llythyr a'r tabl amcangyfrif. Er enghraifft, mae'r llythyr yn gwahanu costau craidd a chostau digwyddiadau, ond nid yw'r tabl yn gwneud hynny.”²²

28. Pan holodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o'r costau, esboniodd y Prif Weithredwr ddull y Comisiwn o amcangyfrif costau craidd, gan nodi:

“... having watched and listened to your previous commentaries and recommendations, and we can run through how we've taken those forward, we've tried to use exactly the formula set out in the funding memorandum approved and noted by the three Parliaments. So, we've taken all the core costs for the whole commission and simply allocated that 4.6 per cent for Wales based on population.”²³

29. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Comisiwn wedi cyhoeddi ei gyfrifon ar gyfer 2023-24 a oedd yn nodi cyfanswm ei wariant yn ymwneud â chostau staff a nwyddau a gwasanaethau, yn ogystal â'r arian na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau datganoledig yng Nghymru. Ar y mater hwn, holodd y Pwyllgor a fyddai'r Comisiwn yn ystyried cyhoeddi dadansoddiad manwl o'i alldro yn erbyn yr Amcangyfrifon ar gyfer Cymru yn ei gyfrifon yn y dyfodol.

30. Ar y ddau bwynt hyn, ysgrifennodd y Comisiynydd a'r Prif Weithredwr at y Pwyllgor yn rhoi mwy o fanylion am y dyraniad cyllid ar gyfer gweithgareddau craidd a digwyddiadau, ac fe wnaethant ymrwymo i roi dadansoddiad o alldro i'r Pwyllgor yn erbyn yr amcangyfrif fel yr awgrymwyd wrth symud ymlaen.²⁴

Cyfathrebu

31. Wrth gyflwyno ei Amcangyfrif ar gyfer 2024-25, cyflwynodd y Comisiwn ei gyllideb atodol ar gyfer 2023-24 hefyd heb roi gwybod i'r Pwyllgor ymlaen llaw bod angen cyllid ychwanegol arno. Yn ei adroddiad nododd y Pwyllgor:

²² [Cyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn](#)

²³ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 64

²⁴ [Llythyr gan Comisiynydd Etholiadol Cymru yn dilyn gwaith craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26](#)

“Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i gadw llinellau cyfathrebu ar agor dros y flwyddyn nesaf. Rydym yn pryderu bod y Comisiwn wedi gwneud penderfyniadau fel caffael swyddfa newydd a gwneud iawn am danariannu cronig heb ddweud wrth y Pwyllgor ymlaen llaw. Nid yw cyflwyno'r costau hyn unwaith y maent eisoes wedi'u cytuno neu hyd yn oed wedi'u talu yn briodol ym marn y Pwyllgor.”²⁵

32. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y cynnydd sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2025-26 o'i chymharu â 2024-25, gan gwestiynu pam na chafodd hyn ei gyfleu cyn cyflwyno'r Amcangyfrif. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn archwilio'r “rhesymau pam na chawsant eu hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-23 i 2026-27”.²⁶

33. Gan gyfeirio at y pwynt hwn, a'r mater ehangach o gyfleu penderfyniadau gwariant, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd mesurau wedi'u rhoi ar waith i wella'r sefyllfa. Roedd argymhelliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor y llynedd yn nodi:

Argymhelliad 3: *Mae'r Pwyllgor yn argymhell, ar faterion sy'n ymwneud â gwariant yng Nghymru, bod y Comisiwn yn cadw mewn cysylltiad agosach a mwy rheolaidd ac yn rhoi gwybodaeth fanwl mewn amser real am benderfyniadau a wneir.*²⁷

34. Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd:

“I think we have to admit that we were late in the day in coming to you with enough discussion about our upcoming budgets, some of which we wrongly kind of assumed to be obvious, and some of which we couldn't come to you on any earlier because of a lack of data. But I do think that, over the next six months, this is the chance for us to jointly look at the corporate plan that will take us over the next five years. And even then, there is a little bit of a problem because the corporate plan of the Welsh Senedd and the timing of the UK Government's corporate plan are not aligned—they're a year

²⁵ Adroddiad Pwyllgor y Llywydd: Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2024-25

²⁶ Llythyr gan Comisiynydd Etholiadol Cymru yn dilyn gwaith craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26

²⁷ Adroddiad Pwyllgor y Llywydd: Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2024-25

out. So, the more we understand each other's challenges, the better."²⁸

35. Ymhelaethodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, Rhydian Thomas, ar hyn, gan ddweud:

*"... in terms of direct communications with the Llywydd's Committee itself, we did send you a comms plan following on from the meeting, the scrutiny session last November, which outlined quarterly in-person briefings and quarterly written briefings to the committee, as well as additional activities, and I think we've stuck to that. We would have, possibly, liked to have done more over the course of the summer just gone, but the general election came along and, I think, took us all by surprise to a degree. But what we propose is, we would send the committee, once again, a revised comms outline for the coming year, and we'd really welcome having discussions with you, especially on our planning work for the Senedd elections, and part of that, of course, will be relating to the campaign and the household booklet and everything else. So, we'd want the plan to be enhanced, moving forward."*²⁹

Cylchoedd a heriau cyllidebol

36. Yn ei sylwadau agoriadol, pwysleisiodd y Comisiynydd yr heriau sydd ynghlwm â rhoi ffigurau cadarn i'r Pwyllgor ar gyfer ei Amcangyfrif o fewn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi. Datganodd y Comisiynydd:

*"... the first one, is the lack of synchronisation between the budget setting of the commission to the UK Government in Westminster, which happens at the end of March 2025, and the need for us to bring a budget to you on 30 September, which is actually even before the autumn budget of the UK Chancellor. And as you will have noticed, there were things like increased national insurance et cetera this time round, which we couldn't have anticipated."*³⁰

37. Ymhelaethodd y Comisiynydd ar hyn, gan ddweud:

²⁸ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 26

²⁹ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 29

³⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 12

“Secondly, you have an aversion, and I completely understand the aversion, to any form of supplementaries. And so what we are trying to put forward is an envelope that might account for some changes. So, there will be some fluidity within our estimate....

... So, we are doing our best and being as reasonable as possible, but I think, at some point, we have to have some sort of panel, perhaps, or a get-together to understand exactly the challenges of setting this budget before 30 September, and coming to you well before that, say in July, with even more floating numbers.”³¹

38. Clywodd y Pwyllgor hefyd y bydd cais y Comisiwn am gyllid yn gyffredinol yn adlewyrchu'r cylch etholiadol, tra bydd ei Amcangyfrifon yn uwch yn y flwyddyn cyn etholiad, ac ym mlwyddyn yr etholiad. Disgrifiodd Pennaeth Comisiwn Cymru y rhaniad costau cyn ac ar ôl yr etholiad, gan ddweud:

“Whenever there's a May poll, that means that the voter registration deadline falls in early to mid April. We run the majority of the campaign in March, but that campaign does bleed into the first half of April, as well as the booklet itself, so that's why we have to cover two financial years. Again, the majority of the work—two thirds of the work—would be in the first financial year, and the rest of it in April, in essence, and a couple of days, maybe, in May.”

39. Mewn perthynas ag unrhyw gynnydd sydyn yn y gyllideb, nododd y Comisiynydd y bydd patrwm o ymddygiad yn dod i'r amlwg dros amser a fydd yn hysbysu'r Pwyllgor am geisiadau cyllideb yn y dyfodol. Dywedodd y Comisiynydd:

“When this committee will have bedded in for about 15, 20 years and it has a corporate memory, I think it will reflect what the National Audit Office accounts reflect, actually, which is that in, shall we say, the years when we're all coping with core issues, our ask remains steady, but that there will be a spike during a local government election, and there will be a spike during a Senedd election. And so, when you see that pattern over time, I don't think that this sort of ask will come as a

³¹ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2024, paragraff 13

surprise to the committee—it will come as the normal pattern of events.

Cefnogi'r gwaith o gynnal etholiad y Senedd yn 2026

40. Mae'r Comisiwn yn nodi bod yr "Amcangyfrif ar gyfer 2025-26 ar gyfer y costau uniongyrchol sy'n briodoladwy i'r Senedd yn cynnwys swm o £1,215,878".³²

41. Mae ei waith yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys sicrhau bod newidiadau sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd sy'n effeithio ar sut y caiff yr etholiad ei weinyddu a'i reoleiddio yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn cael eu deall, a fydd yn cael ei gyflawni "drwy ddrafftio a chyflwyno canllawiau manwl i'r rhai sy'n cynnal yr etholiad a'r rhai sydd am gymryd rhan".³³

42. Bydd y Comisiwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau safonol ar gyfer pob partner, ac yn llunio adnoddau newydd lle bo angen.

Ymgysylltu â phleidleiswyr ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

43. Mae'r Comisiwn yn nodi bod "amcangyfrif 2025-26 yn cynnwys £1,025,000 i gwmpasu costau ym mlwyddyn gyntaf ymgyrch dwy flynedd ar gyfer gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o etholiad y Senedd yn 2026".³⁴

44. Mae wedi cyllidebu £650,000 ar gyfer ei ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i gwmpasu creu asedau penodol y Senedd, prynu cyfryngau ac ymchwil olrhain. Bydd y Comisiwn hefyd yn cynhyrchu ac yn anfon llyfryn gwybodaeth ddwyieithog at bob aelwyd yng Nghymru a fydd yn costio £375,000. At ei gilydd mae'r costau'n cyfrif am 87 y cant o'r cynnydd net yn ei gyllideb ar gyfer 2025-26 o gymharu â 2024-25.

45. Bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar arwain y gwaith o ddatblygu cyfres o ddeunyddiau ymwybyddiaeth y cyhoedd gan gynnwys llyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr a fydd yn cael ei ddosbarthu i bob cartref yng Nghymru, yn cynnwys gwybodaeth am sut i bleidleisio o dan y system newydd. At hynny, bydd yn cynnal ymgyrch cofrestru pleidleiswyr taledig ac yn datblygu asedau cysylltiedig wedi'u targedu at bobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor sy'n byw yng Nghymru.

³² [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

³³ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

³⁴ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

46. Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24³⁵, amlinellodd y Comisiwn ei waith parhaus a'i waith ar gyfer y dyfodol, a oedd yn cynnwys cyflwyno cynllun grant partneriaeth newydd, a fydd yn "darparu cyllid ar gyfer prosiectau gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system ddemocrataidd ymhlith grwpiau sy'n tan gofrestru".

47. Yn ystod gwaith craffu ar amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2024-25, pan ofynnwyd pa waith roedd y Comisiwn yn ei wneud gyda gwladolion tramor i sicrhau eu bod yn deall y system yn llawn a'u hawliau i allu cymryd rhan yn ein democratiaeth, dywedodd Pennaeth y Comisiwn yng Nghymru:

"It's always been a trickier audience, as I think Welsh Government have recognised previously, but we'll continue to work with the Welsh Government. The tricky element is actually identifying the groups within our communities, and I know we've tried to work with Members, for example, because they will have the information relating to where these groups are, and with local authorities to identify the groups. It's been a trickier audience, but we'll continue to work with the Government and with local authorities to (a) identify them and (b) get the material out to them that they need in order to register and then to vote."³⁶

48. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, esboniodd y Comisiynydd yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i adnabod gwladolion tramor a chefnogi'r grwpiau hyn i gofrestru i bleidleisio. Dywedodd:

"Byddwn yn defnyddio data Cyfrifiad 2021 a gwybodaeth a ddelir gan awdurdodau lleol i nodi ardaloedd lle mae nifer uwch o wladolion tramor yn byw yn Nghymru. Yna byddwn yn gweithio gyda Grŵp Cyfathrebu'r Senedd 2026, awdurdodau lleol a sefydliadau partner perthnasol i gynorthwyo yn y gwaith o adnabod y cymunedau hyn a thrafod ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â nhw.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau, byddwn yn edrych ar weithgareddau ymwybyddiaeth gyhoeddus a wneir gan awdurdodau lleol i

³⁵ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2023-24. Adroddiad Blynyddol Cymru

³⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2025, paragraff 148

gyrraedd grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru, gan gynnwys gwladolion tramor.”³⁷

49. Yn ei amcangyfrif ar gyfer 2025-26, mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at ei raglen addysg ddemocrataidd sydd yn ei phedwaredd flwyddyn erbyn hyn, gan nodi:

“... mae hwn yn parhau i fod yn faes cynyddol bwysig o'n gwaith. Ei nod yw effeithio ar newid cyson a dwys i ymgysylltu yn y broses ddemocrataidd ymhlith pobl ifanc.”³⁸

50. Pan ofynnwyd iddi ymhelaethu ar effaith y gwaith hwn a sut mae'r Comisiwn yn bwriadu symud ymlaen â'r gwaith hwn, dywedodd y Comisiynydd eu bod yn casglu adborth gan “athrawon, pobl ifanc a phartneriaid trwy arolygon gwerthuso”. Aeth y Comisiynydd ymlaen i ddweud y byddant yn datblygu adnoddau a chanllawiau newydd cyn etholiad 2026 i adlewyrchu'r newidiadau i'r system, ac y byddant hefyd yn:

“... lansio rhaglen hyfforddi athrawon i gynyddu gwybodaeth a hyder ymhlith athrawon. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn addas at y diben drwy ddefnyddio ein panel Llais Ieuencid a'r Fforwm Athrawon i gael mewnbwn ar y gwaith hwn gan bobl ifanc ac athrawon ledled Cymru.”³⁹

51. Bydd hefyd yn parhau i gefnogi grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hyder i gymryd rhan yn y system ddemocrataidd drwy bartneriaethau a ariennir, ochr yn ochr â darnau llai o waith anffurfiol i gefnogi ei hymgyrch gofrestru, a gwaith ymgysylltu â phleidleiswyr yn ehangach.

52. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru, ac eglurodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu y byddai 70 y cant o'r gyllideb hysbysebu y telir amdano yn cael ei phwysoli tuag at dargedu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn yr ymgyrch cofrestru pleidleiswyr, gyda 30 y cant yn cael ei phwysoli tuag at gynulleidfa dorfol.

³⁷ [Llythyr gan Comisiynydd Etholiadol Cymru yn dilyn gwaith craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26](#)

³⁸ [Llythyr eglurhaol gan Comisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

³⁹ [Llythyr gan Comisiynydd Etholiadol Cymru yn dilyn gwaith craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26](#)

53. Pan holwyd ymhellach a oedd y Comisiwn yn teimlo bod y rhaniad hwn yn rhoi cydbwysedd digonol rhwng annog grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru i bleidleisio a chyfleu'r newidiadau etholiadol sy'n dod i rym i'r etholwyr ehangach, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu:

*"... one of the things that we measure is campaign recognition, and we are starting to see that with some of the under-registered groups, such as, for instance, young people and also some people from ethnic minority groups. We're seeing that campaign recognition is better. So, this weighting does appear to be working."*⁴⁰

Diwygio etholiadol

54. Nododd y Comisiwn ei rôl i ddarparu "cyngor arbenigol a her adeiladol"⁴¹ mewn perthynas â'r set nesaf o etholiadau datganoledig. Bydd hyn yn sicrhau bod y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn llwyddiannus ar gyfer pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

55. Bydd yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd ar gyfer 2026, yn ogystal â'r darnau eraill o is-ddeddfwriaeth y bydd eu hangen i roi'r agenda diwygio etholiadol ar waith.

56. Yn ei sylwadau agoriadol i'r Pwyllgor, nododd y Comisiynydd ei safbwynt ar yr effaith y bydd yr agenda ddiwygio yn ei chael ar y Comisiwn yng Nghymru, gan ddweud:

"This is obviously, in your eyes, an exceptional year, because our budget, our ask, is substantially higher, but obviously as well you don't need me to remind you that this is going to be an election year, in 2025-26, and that you as a Senedd have also maximised the number of elected representatives, you have changed the boundaries, and, more than anything, you have changed—. What I would say is you have made an almost generational change in the voting system that is going to be used in Wales. So, it comes as no surprise that this is a year in which our budget will spike."

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2025, paragraff 47

⁴¹ [Llythyr eglurhaol gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn](#)

57. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn pa ganran o'r cyllid ychwanegol sydd o ganlyniad i ddiwygio etholiadol. Esboniodd Pennaeth Comisiwn Cymru:

"The detail we provided in the regulatory impact assessment and the detail we were asked to provide related to new activities and responsibilities placed on the commission as a result of the legislation. There may be some new activities, there may be some new work that we'll need to do, and these mainly relate to guidance, given the change to the voting system. But in terms of public awareness, this is not new activity, it's existing statutory activity and we'd be presenting the committee with this area of work and these costs even if the legislation hadn't been passed. This has been our approach to campaigning since 2011, 2016 and 2021..."⁴²

58. Pwysodd y Pwyllgor am sicrwydd pellach y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â diwygio etholiadol yn fach iawn, a gofynnodd eto beth fyddai'r goblygiadau i'r amcangyfrif pe na bai'r ddeddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno. Ailadroddodd Pennaeth y Comisiwn yng Nghymru y byddai'r Amcangyfrif yr un peth. Aeth ymlaen i ddweud:

"The costs are for the campaign and for the booklet. We would still be running this campaign and we would still be producing a booklet, even if this legislation hadn't been presented."⁴³

59. Roedd yr amcangyfrif hefyd yn ymdrin â gwaith y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan i ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer cofrestru awtomatig. Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.⁴⁴

60. Gan ymateb i gais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am oblygiadau cost datblygu system awtomatig ar gyfer cofrestru pleidleiswyr, nododd y Comisiynydd yn ei chyflwyniad mai Llywodraeth Cymru a'r pedwar awdurdod peilot sy'n arwain ar y gwaith hwn, yn ystod 2025. Dywedodd bod rôl y Comisiwn wedi'i gyfyngu i ddarparu gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot, y dywedodd y byddant yn ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, a fydd yn cynnwys casglu data perthnasol ynghylch barn y cyhoedd lle bo hynny'n bosibl. Aeth y llythyr ymlaen i ddweud:

⁴² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2025, paragraff 80

⁴³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2025, paragraff 88

⁴⁴ [Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#)

“We have requested £10k for this work, based on previous experience of running evaluation research, and any unused funds will not be drawn down. If it is useful to the Committee, we will work with the Welsh Government to prepare a written note on the detail of the pilots and provide this to the Committee in early 2025.”⁴⁵

Barn y Pwyllgor

61. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn adlewyrchiad teg o'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal wrth baratoi ar gyfer etholiad y Senedd 2026. Rydym yn deall bod amcangyfrif y Comisiwn yn debygol o fod yn sylweddol uwch yn y flwyddyn yn arwain at etholiad. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi, o ganlyniad i ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd a diwygio etholiadol, y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar rai elfennau o'i waith yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Fodd bynnag, rydym yn pryderu, o ystyried cynnydd mor sylweddol yn ei gais, na wnaeth y Comisiwn ystyried costau posibl yn ymwneud â diwygio etholiadol yn ei Gynllun Corfforaethol i Gymru.

62. Mewn perthynas â chynnydd sydyn yng nghyllideb y Comisiwn, sy'n cyd-daro â'r cyfnod cyn blwyddyn etholiad, rydym yn cytuno â haerid y Comisiynydd y bydd y tueddiadau hyn yn dod yn fwy amlwg i'r Pwyllgor dros amser ac y bydd y data yn gymaryddion defnyddiol yn y dyfodol. Fodd bynnag, heb gymhariaeth uniongyrchol â chylchoedd etholiadol blaenorol, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'n fwriad gan y Comisiwn i ddefnyddio amcangyfrif eleni fel llinell sylfaen ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol mewn blynyddoedd etholiad.

63. Mae'r Pwyllgor yn falch ar y cyfan bod yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn dilyn y gwaith craffu ar ei gyfrifon y llynedd wedi'u hystyried, ac rydym yn gyffredinol fodlon ei fod wedi cyflwyno amcangyfrif mwy tryloyw ar gyfer cais cyllid y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod diffyg manylder yn y dadansoddiad o gostau o hyd. Er enghraifft, nid yw'n glir sut mae costau busnes craidd a chostau digwyddiadau uniongyrchol wedi'u dyrannu yn yr amcangyfrif. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd bob amser elfen o hyblygrwydd mewn amcangyfrifon o'r natur hon, ond mae'r Pwyllgor yn teimlo bod gormod o bwysau wedi'i roi ar hyn, a hoffai annog y Comisiwn i ddarparu dadansoddiad manwl o'i wariant arfaethedig. Byddem yn argymhell hyn fel arfer gorau wrth

⁴⁵ [Llythyr gan Comisiynydd Etholiadol Cymru yn dilyn gwaith craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2025-26](#)

gyflwyno amcangyfrifon ar gyfer y dyfodol, a fydd yn caniatáu inni graffu'n llawn ar gostau.

64. Rydym yn croesawu'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed i leihau cyfraniad Cymru at gyllideb graidd y Comisiwn, ac rydym yn falch, yn dilyn ymlaen o argymhelliad y Pwyllgor y llynedd i ddatblygu "cyfres o fesuriadau i werthuso a yw'r buddsoddiad ychwanegol mewn rheoleiddio yn cynnig gwerth am arian", fod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

65. O gymharu â blynyddoedd blaenorol, rydym yn fodlon bod y Comisiwn wedi ymateb i argymhelliad y Pwyllgor ei fod yn cyfleu ei benderfyniad i ni mewn modd amserol. Credwn fod tryloywder yn allweddol er mwyn hwyluso gwaith craffu a byddem yn annog y Comisiwn i gwrdd â ni'n ffurfiol yn fwy rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith arfaethedig wrth iddo ddatblygu, yn enwedig yn y cyfnod cyn etholiad y Senedd 2026.

66. Mae'r Pwyllgor yn deall yr heriau a ddaw yn sgil amseru cyllidebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar yr holl gyrff a ariennir yn uniongyrchol i ddarparu eu hamcangyfrifon erbyn y terfyn amser statudol. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wrthi'n cynnal adolygiad o brotocol proses y gyllideb mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, ac rydym yn annog y Comisiwn i gyflwyno ei farn ar y mater hwn.

67. Mae'r naratif sy'n cyd-fynd â'r amcangyfrif yn nodi nifer y ffyrdd y bydd y Comisiwn yn cefnogi'r agenda diwygio etholiadol, ond nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut mae'r amcangyfrif yn dangos y costau penodol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn. Clywsom dystiolaeth nad yw'n debygol y bydd diwygio'r Senedd yn cael unrhyw effaith ar y cyllid y gofynnir amdano, ond clywsom hefyd: "you have made an almost generational change in the voting system that is going to be used in Wales... it comes as no surprise that this is a year in which our budget will spike". Felly hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd pellach mai bach iawn fydd y costau sy'n gysylltiedig â diwygio etholiadol.

68. Er ein bod yn croesawu bod y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ben uchaf ei gostau amcangyfrifedig, hoffem gael ymrwymiad gan y Comisiwn y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer costau digwyddiadau uniongyrchol yn cael ei neilltuo ar gyfer etholiad Senedd 2026, ac y caiff unrhyw danwariant ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Ein disgwyliad, os bydd tanwariant mewn un maes gwaith, yw na fydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ailddyrrannu i feysydd eraill.

69. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn yn dilyn y sesiwn tystiolaeth lafar ar 4 Tachwedd yn gofyn am ragor o wybodaeth am ei waith ymgysylltu â phleidleiswyr, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc 16-17 oed, gwladolion tramor a grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru. Roedd yn galongol i'r Pwyllgor glywed am y gwahanol ffyrdd y bydd y Comisiwn yn arwain ar y gwaith hwn a sut y bydd yn ymgynghori â sefydliadau partner i ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynghylch y pwysau a roddir i'r ymgyrch hysbysebu y telir amdano sydd wedi'i thargedu at grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru, ac y gallai hyn fod ar draul egluro'r newidiadau i etholiadau'r Senedd i'r etholwyr ehangach. Hoffem felly gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r gwaith hwn yn dod yn ei flaen, a sut mae'r Comisiwn yn bwriadu mesur ei effaith.

70. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth y mae'r Comisiwn wedi'i darparu mewn perthynas â goblygiadau cost datblygu cynlluniau peilot cofrestru awtomatig, ac am ei gynnig i ddarparu nodyn ysgrifenedig ar fanylion y cynlluniau peilot yn gynnar yn 2025. Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf maes o law am sut mae'r gwaith hwn yn dod yn ei flaen.

Casgliad 1. Yn amodol ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25 yn gyson â'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod amcangyfrifon yn y dyfodol yn nodi'n glir sut y caiff cyllid ei ddyrannu i gostau busnes craidd a chostau uniongyrchol digwyddiadau.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyflwyno dadansoddiad o gostau'r gweithgareddau amrywiol sy'n ymwneud ag etholiad y Senedd 2026, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw danwariant a ragwelir yn y meysydd hyn.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae'r amcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn debygol o gymharu â blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan gaiff etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol eu cynnal.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, ac yn ymddangos eto gerbron y

Pwyllgor yn ffurfiol a'r tu allan i'w sesiwn graffu flynyddol, a hynny i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith arfaethedig yn y cyfnod cyn etholiad 2026.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn cyflwyno ei farn i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar yr heriau a achosir gan amseru cyllidebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gyflwyno'i amcangyfrifon erbyn y terfyn amser statudol, fel bod modd ymgorffori hyn yn ei adolygiad o brotocol proses y gyllideb.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn ymrwymo i'r canlynol:

- neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer costau digwyddiadau uniongyrchol i weithgareddau sy'n gysylltiedig ag etholiad y Senedd 2026;
- tynnu i lawr dim mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol o Gronfa Gyfunol Cymru;
- dychwelyd unrhyw danwariant i Gronfa Gyfunol Cymru; a
- rhoi sicrwydd, os bydd tanwariant mewn un maes gwaith, na fydd yr arian sy'n weddill yn cael ei ailddyrannu i feysydd eraill.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod dadansoddiad pellach o'r costau yn cael ei gyflwyno, a hynny i ddangos y costau canlyniadol, os o gwbl, sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd sy'n ychwanegol at flwyddyn etholiad 'gyffredin'.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo ynghylch y canlynol:

- sut mae ei waith ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru yn dod yn ei flaen; a
- sut mae'n bwriadu mesur yr effaith y mae'r ymgyrch hysbysebu y telir amdano yn ei chael ar grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru a'r etholwyr ehangach.

Atodiad A: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25.

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Costau uniongyrchol (tâl a di-dâl)					
Datganoli, llywodraethu a'r gyfraith					
Deddfwriaeth, strategaeth a chydgyssylltu	0	22	11	-11	-51%
Sylwadau					
Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli a chydlynu'n ganolog y gwaith o gyflawni newidiadau sy'n codi fel rhan o'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys sicrhau bod timau ar draws y Comisiwn yn cael eu cefnogi i gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau sydd eu hangen yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol, a gweithredu'r rhain.					
Cymru	366	293	40	-254	-87%
Sylwadau					
Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau er mwyn:- cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth newydd diwygio'r Senedd a diwygio etholiadol; gwneud swyddogion canlyniadau/swyddogion cofrestru etholiadol, gweinyddwyr ac ymgeiswyr ac asiantau yn ymwybodol o'r canllawiau a'r adnoddau newydd; monitro perfformiad swyddogion canlyniadau/swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru ac ymateb i'w hymholiadau am gyngor ac arweiniad; cynghori'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd a grwpiau rhanddeiliaid eraill, gan adlewyrchu barn rhanddeiliaid y Comisiwn a rhanddeiliaid yng Nghymru; lansio grŵp trawsbleidiol yn y Senedd i drafod materion yn ymwneud â democratiaeth Cymru; cefnogi'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru i fodloni gofynion statudol a helpu pleidiau gwleidyddol newydd ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i gofrestru; drafftio a gosod codau ymarfer newydd ar wariant etholiadol ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr cyn etholiad y Senedd yn 2026; cefnogi pleidiau gwleidyddol a chyflwyno sesiynau hyfforddi cyn etholiad y Senedd yn 2026 i sicrhau					

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
<p>cydymffurfiaeth â'r rheolau newydd; cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu gwybodaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn etholiad y Senedd 2026, a pharhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a bennir gan Gomisiynydd y Gymraeg; cynnal ymgyrch cofrestru a gwybodaeth integredig i bleidleiswyr, gan sicrhau bod pleidleiswyr yng Nghymru wedi'u cofrestru i bleidleisio ac yn deall y newidiadau i system bleidleisio'r Senedd, gan gynnwys ymgyrch cofrestru pleidleiswyr y telir amdani, llyfryn gwybodaeth aelwydydd ac asedau hyrwyddo ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau partner; diweddarau a datblygu ein hadnoddau addysg ddemocrataidd a chymorth i athrawon cyn etholiad y Senedd mewn partneriaeth â Chomisiwn y Senedd ac yn seiliedig ar ofynion a nodwyd gan ein rhwydwaith llais ieuenctid a'r Fforwm Athrawon Addysg Democrataidd sydd newydd ei sefydlu; arwain ar y trefniadau atebolwydd i'r Senedd a Phwyllgor y Llywydd, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu a bod terfynau amser statudol yn cael eu bodloni, gan gadw partneriaid allweddol yn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses.</p>					
Cyfreithiol	80	102	55	-47	-46%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gyfanswm cost darparu cymorth cyfreithiol i swyddogaethau cyngor, arweiniad a rheoleiddio'r Comisiwn. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi datblygu unrhyw argymhellion polisi, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyfredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddu etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cyngor ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru a sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei rwymedigaethau atebolwydd i'r Senedd.</p>					
Llywodraethu			20	20	0%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gyfanswm cost darparu gwasanaethau llywodraethu corfforaethol ar draws y Comisiwn. Mae'r gost hon yn cynnwys cymorth ar gyfer gweithredu fframwaith llywodraethu corfforaethol y Comisiwn a chefnogi Bwrdd y Comisiwn i oruchwylio a chyflawni cyfrifoldebau llywodraethu'r Comisiwn. Senedd y DU sy'n talu costau ffioedd y Comisiynydd.</p>					

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Gweinyddiaeth etholiadol a rheoleiddio					
Cymorth a gwelliant	18	18	16	-2	-12%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi monitro a chymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gyflawni eu gwasanaethau cofrestru etholiadol statudol. Mae hefyd yn cynnwys cynnal adolygiad llawn o'r safonau perfformiad presennol ar gyfer swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau, yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o ddiwygio etholiadol yng Nghymru, a hynny i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y fframweithiau safonau perfformiad, ac i helpu i'w gweithredu.</p>					
Canllawiau	45	45	43	-2	-5%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys y gost o reoli a diweddarau'r canllawiau sy'n deillio o newid deddfwriaethol fel rhan o'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys diweddarau ein cyfres o ganllawiau ac adnoddau craidd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid yn ôl yr angen.</p>					
Cofrestru ac adrodd	72	77	49	-28	-37%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau'r gwaith sy'n ymwneud â'r adrodd ariannol statudol sy'n ofynnol gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru. Mae'r adroddiadau'n cynnwys adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, a chyflwyniad blynyddol Datganiad Cyfrifon. Mae hefyd yn cynrychioli cyfran y costau sy'n ymwneud ag adnewyddu blynyddol o fanylion plaid gofrestredig ac unrhyw newidiadau i'r manylion cofrestru a wneir drwy gydol y flwyddyn.</p>					

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Monitro a gorfodi	65	73	55	-17	-24%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch ymgyrchu pleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn ein helpu i adnabod ymgyrchwyr a allai fod angen ein cefnogaeth i gydymffurfio. Mae hefyd yn cefnogi ein gwaith ymyrryd a gorfodi, os yw'n ofynnol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) o fewn pob ardal Heddlu i roi cyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr etholiad.</p>					
Cefnogaeth reoleiddiol	50	56	43	-13	-24%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantau. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru a diweddarau ein hadnoddau yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu adborth. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth gydol y flwyddyn sydd wedi'i deilwra a'i dargedu i anghenion rhanddeiliaid unigol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y gymuned a reoleiddir ddealltwriaeth o'r cyfreithiau, eu rhwymedigaethau a'u nodau i gefnogi lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Fel rhan o hyn, rydym yn cynnig hyfforddiant pwrpasol a chymorthfeydd cyngori, ac yn cynnal gweminarau.</p>					
Cyfathrebu, polisi ac ymchwil					
Ymgyrchoedd a hunaniaeth gorfforaethol	41	46	1112	1065	2309%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o fusnes fel arfer ar gyfer ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol y telir amdanynt yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd yn 2026. Bydd hyn yn canolbwyntio ar yr ymgyrch gofrestru, a bydd yn darparu llyfrynnau gwybodaeth i bleidleiswyr a ddosberthir i bob aelwyd yng Nghymru.</p>					

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Cyfathrebu digidol ac ymgysylltu â phleidleiswyr	78	78	171	93	120%
<p>Syladau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm Cyfathrebu Digidol a thîm Ymgysylltu â Phleidleiswyr y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Byddwn yn parhau i gynnal rhwydwaith Llais Ieuenctid ar gyfer Cymru, a bydd ein partner Llais Ieuenctid yn parhau i wneud gwaith ymgynghori gyda phobl ifanc ledled Cymru, i gael eu hadborth a'u mewnbwn ar ein hadnoddau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar ein gwaith llythrennedd gwleidyddol presennol drwy ddigideiddio ein hyfforddiant athrawon ac ymarferwyr ieuenctid, gwneud gwelliannau pellach i'n hadnoddau i bleidleiswyr ag anghenion hygyrchedd a rhoi cymorth i bleidleiswyr sy'n cofrestru'n ddienw. Byddwn hefyd yn cynyddu cymorth prosiectau o dan gymunedau cofrestredig i ymgysylltu â democratiaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys ein gwaith cyfathrebu digidol. Mae ein tîm Cyfathrebu Digidol yn datblygu ac yn cynnal ein gwefan ddwyieithog, offer digidol, a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd mwy o ffocws ar gynhyrchu cynnwys i Gymru ac yn y Gymraeg cyn etholiadau mis Mai 2026. Byddant hefyd yn cefnogi timau ar draws y Comisiwn i gyhoeddi gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ein rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.</p>					
Cyfathrebu allanol	68	65	67	2	2%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau cyfathrebu allanol busnes fel arfer, gan gynnwys cymorth cysylltiadau â'r cyfryngau a materion cyhoeddus i'r tîm yng Nghymru wrth iddo baratoi ar gyfer etholiadau 2026 ac ymateb i ddeddfwriaeth sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol y Llywodraeth. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyflawni ei swyddogaeth gwybodaeth i'r cyhoedd i ddarparu cymorth ac arweiniad i bleidleiswyr cyn etholiadau 2026.</p>					
Ymchwil	47	31	40	9	29 y cant

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Sylwadau					
Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau ymchwil busnes fel arfer, gan gynnwys gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd drwy adrodd ar etholiadau Cymru a chynnal gwerthusiad statudol o gynlluniau peilot sydd ar y gweill ar gyfer cofrestru etholiadol heb gais.					
Polisi	53	53	36	-18	-33%
Sylwadau					
Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau polisi busnes fel arfer, gan gynnwys gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth iddynt ystyried cynigion polisi a deddfwriaeth newydd sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol y Llywodraeth, gan gynnwys cynlluniau peilot sydd ar y gweill ar gyfer cofrestru etholiadol heb gais.					
Cyfanswm Costau uniongyrchol	983	958	1754	796	83%
Costau anuniongyrchol					
Adnoddau	304	515	648	133	26 y cant
Sylwadau					
Mae effaith yn cynnwys (1) Effeithiau ffafriol newidiadau priodoli yn 25/26 gan fod mwy o gostau yn seiliedig ar boblogaeth. (2) Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl o 4 y cant yn unol â rhagolwg RPI (£39,000). (3) Mae cynnydd mewn TG yn gysylltiedig â thwf cyffredinol ym maint y Comisiwn a gwella diogelwch TG, gan gynnwys rolau ychwanegol sydd eu hangen yn y tîm TG, effaith blwyddyn lawn newidiadau yn 2024/25 a ffocws parhaus ar foderneiddio technoleg. (4) Effaith twf mewn nifer o dimau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â bylchau mewn capasiti a gallu, gan gynnwys cyllid, caffael ac AD (prentisiaid, costau recriwtio, costau ymgynghori ar gyfer adolygiad tâl a staffio ychwanegol) (5) yn llifo drwodd o effeithiau codiadau cyflog 24/25 ar gynnydd o £25,000.					

Costau'r Senedd	Cynnig 23-24	2024-25 (£000oedd)	2025-26 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Dibrisiant	127	92	85	-7	-7%
Sylwadau Gostyngiad wedi'i ysgogi gan ddsraniad ffafriol wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan gynnydd mewn asedau.					
Dyfarniad cyflog 2024-25			45	45	0%
Sylwadau Yn seiliedig ar chwyddiant o 2.5 y cant a darpariaeth o tua 2.7 y cant yn gysylltiedig â gweithredu'r adolygiad tâl.					
Cynllun corfforaethol			211	211	0%
Cyfanswm costau anuniongyrchol	431	606	988	382	63%
Cyfanswm cyfraniadau	1414	1564	2742	1178	75%